Cyfarfod Cyngor Cymuned Llanelltyd, Taicynhaeaf a Bontddu a gynhaliwyd yn Neuadd Bentref Llanelltyd
Nos Fawrth, Gorffennaf 10, 2018 am 7.30 o'r gloch.

Presennol: Cynghorwyr: Geraint Rowlands (Cadeirydd), John Hughes, Llinos Williams, Elfed ap Gomer, Paul Williams. Hefyd Henry M. Edwards.

1. Ymddiheuriadau: Gareth Ellis, Gethin Williams, Peredur Jenkins.

2. Datgan diddordeb:

Roedd Elfed ap Gomer yn datgan diddordeb ynglŷn ag Eitem 5.f.

3. Cadarnhau cofnodion cyfarfod Mehefin 12, 2018

Cynigwyd ac eilwyd fod y cofnodion yn gywir.

4. Materion yn codi o'r cofnodion Mehefin 12, 2018

Eitem 4. Eitem 5. Eitem 4. Eitem 8.1. Derbyniwyd llythyr oddi wrth Paul Williams a Geraint Rowlands yn rhoi gwybod nid ydynt yn hawlio'r £150.00 sydd ar gael iddynt fel cynghorwyr gymuned am y flwyddyn ariannol bresennol.

5. Materion Ariannol

a. Llythyr (14/6/2018) oddi wrth Archwilydd Mewnol yn rhoi gwybod bydd dogfennau'r Cyngor ar gael ar 20/6/2018.

O'r adroddid ymchwiliad roedd:

a. Methiant i sicrhau bod asesiad risg wedi cael ei adolygu'n rheolaidd.
Penderfynwyd adolygu'r asesiad risg yn flynyddol.

b. Methiant i gadarnhau bod y gweithiwr wedi derbyn termau ac amodau clir o'i gyflogaeth oherwydd diffyg cytundeb gyflogaeth.
Penderfynwyd gwneud ymoliadau gyda chynghorau cymuned leol i gael gwybod pa gytundeb gyflogaeth sydd ganddynt. Ni chafwyd ateb gan Un Llais Cymru ar y mater.

Roedd angen rhoi sylw i'r uchod a chymryd camau priodol i'w lliniaru.

Anfonwyd y dogfennau ymlaen i BDO ar 23/6/2018

b. Costau'r Clerc am Ebrill 1, 2017 - Mawrth 31, 2018:

Swm am: stampiau + papur + amlenni + inc: £211.70.
Penderfynwyd talu'r swm.

c. Llythyr (18/6/2018) oddi wrth Un Llais Cymru gyda ffurflen ar gyfer taliadau a wneir i'r aelodau; taliadau fel defnyddio ffôn, cyfrifoldeb, teithio yn 2016/17. Mae angen ei arddangos i'r cyhoedd cyn 30 Medi.

Llythyr (6/2018) gyda'r un wybodaeth oddi wrth Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol.

Roedd angen anfon copi i Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol.

Penderfynwyd rhoi y wybodaeth ar wefan y Cyngor. Roedd taliad £58.00 ar gyfer Elfed ap Gomer at deithio i Gynhadledd Un Llais Cymru. Anfonwyd copi i'r Panel.

d. Llythyr (1/6/2018) oddi wrth Meithrinfa Seren Fach, Brithdir. Maent angen cymorth ariannol.

Penderfynwyd trafod y mater mis Chwefror 'Cais am Nawdd'.

dd. Anfoneb (2/7/2018) am £225.00 oddi wrth Janet Edwards am lanhau a gofalu am Toiledau Bontddu yn y cyfnod Mawrth, Ebrill a Mai.

Penderfynwyd talu'r swm.

e. Llythyr (29/6/2018) oddi wrth E.W. Owen a'i Chwmni yn rhoi manylion cyflog newydd y Clerc.
Taliad misol i'r Clerc: £97.08 (yn chwarterol £291.24)
Taliad misol i Cyllid a Thollau EM: £24.20 (yn chwarterol £72.60).
Cyfanswm: 12 (£97.08 + £24.20) = £1,455.36 y flwyddyn. (Gweler Cofnodion Mai 8, 2018 Eitem c.)

Bydd y taliadau yn dechrau ym mis Hydref, 2018.

f. Llythyr (8/7/2018) oddi wrth Cymdeithas Y Dydd. Maent angen cymorth ariannol.

Penderfynwyd rhoi rhodd o £50.00 iddynt wedi iddynt sefydlu papur newydd Y Dydd. Gweler Cofnodion Hydref 10, 2017. Mae'r Y Dydd nawr wedi ei sefydlu.

Maent hefyd yn gofyn am gymorth ariannol o £50 am y flwyddyn ariannol bresennol.

Penderfynwyd rhoi £100 iddynt, a dod y llythyr i fis Chwefror 'Cais am Nawdd'.

ff. Balans yn y banc ar 29 Mehefin, 2018: £9,538.56.

6. Mynwent Llanelltyd

a. Mae angen cael gwybod am le addas i gladdu gweddillion o'r Amlosgfa.

Penderfynwyd lleoli gladdu gweddillion o'r Amlosgfa wrth y wal terfyn sy'n arwain i Tyn Llan.

7. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

a. Llythyr (26/6/2018 yn rhoi gwybod bydd cyfarfod gyda chynghorau cymuned a thref dydd Iau, Hydref 4, 2018 am 6.30yh yn Plas Tan y Bwlch. Yr agenda fydd: diweddariad ar y Cynllun Datblygu Lleol, cynllun Partneriaeth y Parc, prosiect LIFE, ymateb i Geisiadau Cynllunio.

Penderfynwyd i Geraint Rowlands fod yn bresennol yn y cyfarfod.

8. Gohebiaeth

a. Llythyr (13/6/2018) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod bod newid i Rheolau Sefydlog: Para 21(a) Diogelu Data – Dylid newid y cyfeiriad at 'Bydd' i 'Gall' – Gall y Cyngor benodi Swyddog Diogelu Data.

b. Llythyr (14/6/2018) oddi wrth Uned Gyfreithiol, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod bydd Cyfyngiadau Dros Dro ar ffyrdd A470 / A496 at Ras Feicio ''Women's Tour of Britain 2018''. Bydd yn cael ei gynnal dydd Sul, Mehefin 17 2018, cychwyn am 6.00yb yn Nolgellau a gorffen ym Mae Colwyn..

c. Llythyr (14/6/2018) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod am Gynhadledd Arfer Arloesol Un Llais Cymru ar Gorffennaf 4, 2018 ym Maes y Sioe Amaethyddol.

ch. Llythyr (26/6/2018) oddi wrth Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru. Oherwydd GDR mae angen rhoi gwybod i'r Comisiwn am unrhyw newid yn ein manylion fel unigolyn cyswllt, cyfeiriad, er mwyn sicrhau ein bod yn parhau i gael gwybodaeth y Comisiwn.

Penderfynwyd i Elfed ap Gomer gwneud ymoliadau gydag Un Llais Cymru i gael gwybod sut mae GDR yn effeithio'r Cyngor.

d. Llythyr (2/7/2018) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod bydd eu Cynhadledd a Chyfarfod Cyffredinol Blynyddol ar ddydd Sadwrn, Medi 29, 2018 ar faes Sioe Frenhinol Cymru, Llanelwedd am 9.30yb. Yn bresennol bydd Alun Davies AC (Ysgrifennydd Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus), Cyng Debbie Wilcox (Arweinydd WLGA) a dau aelod o'r Panel Adolygu Annibynnol.

Penderfynwyd i Elfed ap Gomer fod yn y Cynhadledd, a thalu'r ffi cofrestru £75.00.

dd. Llythyr (2/7/2018) oddi wrth Un Llais Cymru yn hysbysu swydd Swyddog Datblygu Gogledd Cymru. Angen ceisiadau cyn Gorffennaf 16, 2018.

e. Llythyr (27/6/2018) oddi wrth Swyddog Datblygu Plant, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod maent angen gwarchodwyr plant. Amgáu mae posteri i'w harddangos ar hysbysfwrdd.

Rhoddwyd y posteri ar hysbysfwrdd Bro Cymer.

f. Llythyr (4/7/2018) oddi wrth Gethin Williams yn rhoi gwybod:

1. mae angen codi sbwriel ar ochr ffordd A496 rhwng Bontddu a Taicynhaeaf.
2. mae angen gwneud rhywbeth i waelod ffordd Cwm Hirgwm (wrth dŷ Gwylfa) oherwydd effaith gwres yr haul yn meddalu gwyneb y ffordd.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i Priffyrdd.

ff. Llythyr (9/7/2018) oddi wrth Adran Amgylchedd, Cyngor Gwynedd ynglŷn Parcio Arfaethedig yn Llanelltyd. Amgáu mae plan yn dangos eu bwriad. Os mae sylwadau maent eu hangen cyn Awst 2, 2018.

Penderfynwyd rhoi gwybod i'r Adran mae angen ymestyn llinellau melyn sydd wrth y gyffordd i'r Neuadd Llanelltyd.

9. Adroddiad Cyng. Peredur Jenkins

Nid oedd adroddiad

10. Materion Brys

a. Penderfynwyd holi Gwasanaeth Cynnal Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Cyngor Gwynedd am giât newydd sydd wedi ei osod ar draws mynedfa Pen-y-Banc, Taicynhaeaf. Mae nifer o drigolion Cwm Mynach wedi mynegi pryder fod y giât lydan yn agor allan i'r ffordd.

Dymunwn gael gwybod:

oes angen caniatad cynllunio i godi giât fel hyn?
ydy hi'n 'gyfreithiol' yn ôl rheolau'r Adran Priffyrdd?

Gofyn i'r Cyngor Sir edrych i mewn er mwyn tawelu meddyliau'r trigolion.